CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Cynllun Insiwleiddio Prydain (GBIS) a Chynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO)

## NODYN CYFARWYDDYD I OSODWYR

**This document is also available in English.**

Dylai gosodwyr sydd â diddordeb mewn gweithio yng Nghonwy gysylltu â CBSC fel y cam cyntaf (ecoflex@conwy.gov.uk). Gofynnir i osodwyr lenwi ffurflen 'ymsefydlu' a darparu copïau o'u hachrediadau PAS, MCS a TrustMark. Bydd angen manylion achrediadau is-gontractwyr hefyd.

**Mae CBSC yn cadw cofnod o ddyddiadau terfyn a byddant yn gofyn am fanylion achrediad newydd pan fydd angen. Ni chyflwynir datganiadau i unrhyw osodwr y mae eu hachrediad wedi dod i ben.**

1. Mae CBSC yn annog gosodwyr, neu gwmnïau canfasio, i beidio â gwneud galwadau di-wahoddiad wyneb yn wyneb. Rydym yn mynnu eich bod chi'n cysylltu â deiliaid tŷ dros y ffôn, e-bost, llythyr neu bamffled i ddechrau. Caiff unrhyw gwynion a dderbynnir gan ddeiliaid tŷ yn ymwneud â galw diwahoddiad eu hymchwilio, a gall arwain at y Cyngor yn gwrthod rhoi datganiad.

   **Ni ddylai gosodwyr ddefnyddio brand CBSC nac awgrymu eu bod yn gweithio ar ran CBSC.**

2. Cyfrifoldeb y gosodwr yw bod yn bwynt cyswllt ar gyfer y deiliad tŷ a sicrhau eu bod yn ymwybodol o sut y cyflawnir y broses ymgeisio. Sicrhewch fod deiliaid tai yn ymwybodol bod y cynllun yn cael ei arwain gan y sector preifat a bod cyllid yn cael ei ddyrannu gan gwmnïau ynni - mae cyfranogiad CBSC yn gyfyngedig ar ffurf cadarnhau cymhwysedd y deiliad tŷ, o dan feini prawf y cynllun.

   Sicrhewch fod deiliad y tŷ yn derbyn eich manylion cyswllt, gan gynnwys enw cyswllt, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.

3. Dim ond gosodwr sydd wedi'i 'ymsefydlu' sy'n gallu cyflwyno cais i CBSC. Codir ffi weinyddol o £150+ TAW (fesul datganiad) ar y pwynt prosesu. Mae'r ffi'n daladwy o dan y telerau a nodir ar yr anfoneb ac yn berthnasol os cyflwynir datganiad ai peidio. Ni fydd unrhyw osodwr gydag anfonebau hwyr yn gallu cyflwyno ceisiadau pellach nes y telir eu dyledion.

   **Ni ddylai deiliad tŷ sy'n derbyn cymorth dalu am y ffi weinyddol o dan unrhyw amgylchiadau.**

   Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o ffurflen gais CBSC, sydd ar gael ar ein gwefan. Gwneir pob ymdrech i hysbysu gosodwyr sydd wedi'u 'hymsefydlu' o unrhyw newidiadau, ond byddem yn argymell bod y gosodwyr yn gwirio'r wefan yn rheolaidd. Sicrhewch fod pob cais yn cael ei gwblhau'n llawn ac y cyflwynir hysbysiad preifatrwydd CBSC a'r gosodwr gyda'r cais.

   Ni ellir gwarantu amseroedd prosesu ond bydd yn dechrau o fewn 10 diwrnod o gyflwyno'r cais. Byddem yn argymell bod gosodwyr yn defnyddio ein rhestr wirio ar gyfer tystiolaeth, fel na fydd yn rhaid i CBSC ofyn am wybodaeth bellach. Mae'n rhaid sicrhau bod deiliaid tai yn ymwybodol o'r gofynion o ran tystiolaeth ar gyfer y cynllun.

4. Drwy gyfranogi yn y cynllun ECO-Flex, mae CBSC yn ceisio cefnogi'r aelwydydd hynny sy'n profi tlodi tanwydd ac mewn perygl o fyw mewn tŷ oer. Er mwyn sicrhau bod y deiliaid tai cymwys hynny yn manteisio ar y cynllun, rhaid i osodwyr argymell y seilwaith mwyaf fforddiadwy ac effeithlon o ran ynni ar gyfer deiliad y tai a'r eiddo ac nid dim ond cynnig y mesurau hynny a allai sicrhau lefel uwch o ymyrraeth grant.

   Rhaid i chi roi gwybod i ddeiliaid y tŷ am unrhyw waith a chostau ychwanegol na ellir eu hariannu drwy'r cynllun ECO-Flex, ac egluro iddynt ei fod yn bosibl y byddai'n rhaid iddyn nhw dalu'r costau. Rhaid i ddeiliaid y tŷ fod yn ymwybodol nad yw'n ofynnol iddynt barhau â'r cynllun os nad ydyn nhw'n credu bod y gwaith gwella yn briodol neu'n fforddiadwy iddyn nhw.

5. Bydd CBSC ond yn cyhoeddi un datganiad fesul cyfeiriad, a nodwyd gan gyfeirnod unigryw a adroddir i Ofgem cyn cyhoeddi'r datganiad gosod. Dylai gosodwyr gadarnhau gyda'r deiliad tŷ pa un a ydynt wedi cysylltu ag unrhyw osodwr arall yn flaenorol a chadarnhau pa un a oes yna gytundeb mewn lle yn barod. Yn absenoldeb cytundeb ac mewn achos ble mae'r deiliad tŷ wedi newid eu meddwl, mae CBSC yn gallu trefnu i drosglwyddo'r datganiad presennol i'r gosodwr newydd. Gallwch gysylltu â CBSC (e-bost ecoflex@conwy.co.uk) i gael mwy o wybodaeth.

6. Dylid anfon holl ddogfennaeth y cais ac unrhyw ymholiadau at:

   ecoflex@conwy.gov.uk

   Coed Pella, Conwy Road, Bae Colwyn, LL29 7AZ